CEFNOGWYD GAN
COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

# CANLLAW MYFYRWYR: DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL YN GYMRAEG

**Prosiect dan nawdd y Coleg Cymraeg a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.**

Bwriad y canllaw hwn yw'ch cefnogi i ddefnyddio AI drwy'r Gymraeg yn llwyddiannus a'i ddefnyddio'n gyfrifol, gan gynnal uniondeb academaidd.

Byddwn yn argymell i bob un ohonoch ymgymryd â hyfforddiant sefydliadol o ran defnydd AI (llythrennedd AI), a darllen canllawiau swyddogol eich sefydliad. Gwiriwch ganllaw defnydd AI mewn manylebau asesu, a'r hyn sy'n ddigwyliedig wrth i chi gyflwyno asesiadau, megis datganiad AI, cyfeirnodi AI a chadw cofnod o'ch defnydd o AI.

Dylid nodi mai ystyriaethau cyffredinol yw nifer o'r argymhellion isod, megis gwirio dilysrwydd ffynonellau, creu promptiau effeithiol er mwyn mireinio'r allbwn ac hefyd i chwilio'n ddyfnach ac yn benodol; gwirio'r iaith a gwirio am rithwelediadau. Ond pwysleisir yma fod ystyriaethau ehangach wrth drin y Gymraeg oherwydd cyfyngder adnoddau cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli ar y rhyngrwyd.

Er mwyn deall natur yr her sy'n ein hwynebu fel defnyddwyr Cymraeg ein hiaith, dyma fraslun o sut mae AI yn ymdrin â ieithoedd a'r goblygiadau sydd felly ar gyfer defnyddwyr ieithoedd lleiafrifol fel y Gymraeg:

- Adnodd isel (Iaith sydd â chorpws digidol cymharol fach ar gyfer hyfforddi modelau AI)
- Diffyg adnoddau a ffynonellau
- Rhagfarn
- Diffygion cyfieithiadau peiriannol
- Pwysigrwydd peirianneg promptiau (prompt engieneering)

## 1. Defnyddiwch AI yn gyfrifol

- Defnyddiwch AI i gynllunio syniadau, egluro cysyniadau, crynhoi gwybodaeth, awgrymu strwythur traethawd, gwirio gramadeg ac iaith a dod o hyd i ffynonellau cychwynnol.
- Peidiwch â defnyddio AI i gynhyrchu aseiniad cyfan neu gyflwyno gwaith nad yw'n waith eich hun.
- Defnyddiwch AI fel offeryn i gefnogi eich dysgu – nid i ddisodli eich meddwl, eich llais na'ch cyfraniad deallusol.
- Defnyddiwch yr offer AI a argymhellir gan eich sefydliad yn gyntaf (e.e. Microsoft Copilot) – maent fel arfer yn fwy diogel ac yn cynnig gwell amddiffyniad o'ch data a'ch preifatrwydd.

## 2. Gwiriwch reolau eich sefydliad

- Darllenwch bolisi AI eich prifysgol a gofynion eich modiwl.
- Gwiriwch a oes angen datgan eich defnydd o AI.
- Cadwch gofnod o'ch promptiau a'ch drafftiau.

## 3. Cofiwch nad yw AI yn berffaith yn y Gymraeg

- Gall AI gamdreiglo, defnyddio cystrawen Seisnig, camddeall idiomau a chynhyrchu Cymraeg annaturiol.
- Darllenwch yr allbwn yn **feirniadol** a gwirio ei gywirdeb.

4. **Byddwch yn benodol wrth ysgrifennu promptiau**

- Defnyddiwch gyfarwyddiadau clir a phenodol.

  Enghraifft: '*Ysgrifennwch grynodeb o 200 gair mewn Cymraeg academaidd.'*

- Darllenwch ein canllaw ar bromptio yn Gymraeg.

5. **Rhowch gynnig ar fwy nag un prompt**

- Os nad yw'r canlyniad yn dda, ailysgrifennwch y cwestiwn a rhowch fwy o fanylion. Cofiwch fod 'drifftio' yn gallu digwydd o ran cynnwys a iaith.

6. **Defnyddiwch chwiliadau dwyieithog**

- Gall defnyddio termau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd wella canlyniadau chwilio.

7. **Sut i ddod o hyd i ffynonellau Cymraeg**

- Dywedwch wrth yr AI: 'Defnyddiwch ffynonellau Cymraeg yn unig' neu 'Blaenoriaethwch ffynonellau Cymraeg'.

- Gofynnwch am ddolenni a chyfeiriadau academaidd.

8. **Defnyddiwch ffynonellau dibynadwy**

- Primo, Google Scholar, JSTOR ac ERIC.

- Termau Cymru, Cysgliad, Cysgeir, Macsen a Helo Blod.

9. **Gwirio'r Gymraeg**

- Nid yw Grammarly yn cefnogi'r Gymraeg.
- Defnyddiwch Cysill, Cysgliad, Geiriadur Termau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Termau Cymru.

10. **Gwirio'r wybodaeth**

- Gwirio ffynonellau, dyddiadau a chymharu gwybodaeth â ffynonellau eraill.
- Gwiriwch nad yw'r AI wedi dyfeisio cyfeiriadau.

11. **Wrth ddefnyddio AI ar gyfer ymchwil**

- Defnyddiwch AI i egluro cysyniadau a chynhyrchu geiriau allweddol yn unig.
- Peidiwch â dibynnu ar AI fel eich unig ffynhonnell academaidd.

12. **Datblygu eich llythrennedd AI**

- Dysgwch ddefnyddio AI yn effeithiol ond hefyd dysgwch ei gwestiynu.
- Datblygwch eich sgiliau meddwl beirniadol.

## Rhestr Wirio Cyn Cyflwyno Gwaith

☐ Gwiriais bolisi AI y modiwl.

☐ Datganais fy nefnydd o AI.

☐ Gwiriais ansawdd a chysondeb y Gymraeg.

☐ Gwiriais yr wybodaeth.

☐ Gwiriais y ffynonellau.

☐ Defnyddiais ffynonellau dibynadwy.

☐ Cadwais gofnod o fy mhromptiau.

☐ **Mae'r gwaith yn adlewyrchu fy llais a'm dealltwriaeth fy hun.**